# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 28 MEHEFIN 2017

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 28 Mehefin 2017.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Richard Jones, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips and Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: David Evans, Christine Jones and Richard Lloyd.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gynllunwyr, Cyfreithiwr a Swyddog Pwyllgorau.

## 9. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau cysylltiad.

## 10. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod.

Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom a oedd y sylwadau a ddangoswyd dan 'nodwyd' ar gyfer eitem 6.1 ar y rhaglen yn ymateb gan yr Awdurdod Cynllunio. Cadarnhaodd y Cyfreithiwr mai dyma oedd ymateb yr Awdurdod Cynllunio i'r sylwadau blaenorol.

## 11. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2017.

Cyfeiriodd y Cyfreithiwr at ddiwygiad i dudalen 6 y cofnodion a nododd y dylid diwygio'r paragraff olaf i ddweud:-

Datganodd y Cynghorydd Adele Davies-Cooke ei bod eisoes wedi penderfynu ynghylch y cais ac ar ôl cymryd cyngor cyfreithiol, byddai'n siarad fel Aelod lleol yn unig cyn i'r eitem gael ei thafod ac yna byddai'n gadael yr ystafell ar ôl siarad – eitem rhif 7.5 ar y rhaglen - Cais Llawn – Codi Siop Fferm a gwaith cysylltiedig, creu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr yn Coppy Farm, Ffordd Cilcain, Gwernaffield (05664).

Gwnaeth y Cynghorydd Mike Peers sylw ar arddull newydd y cofnodion ac awgrymodd y dylid nodi'n glir yn y cofnodion pan fod siaradwyr trydydd parti yn cael eu recordio. Awgrymodd hefyd y dylid cynnwys crynodeb o'r drafodaeth yn y cofnodion. Nododd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) y byddai arddull

newydd y cofnodion yn cael ei adolygu gan y Grŵp Strategaeth Cynllunio ymhen 12 mis.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Richard Jones, dywedodd yr Arweinydd Tîm - Gwasanaeth Pwyllgorau y byddai’r recordiadau o holl gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol yn y llyfrgell we-ddarlledu ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad a restrwyd uchod, y dylid cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

**12. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nododd y Prif Swyddog (Cynllunio a’r Amgylchedd) na argymhellodd y swyddogion i unrhyw rai o’r eitemau ar y rhaglen gael eu gohirio.

**13. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y’u dangosir ar y rhestr Ceisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**14. PENDERFYNIADAU APELIADAU**

**APÊL GAN MR R. FURSE YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER Y CYNNIG I ADEILADU UN UNED BRESWYL AR Y LLAWR CYNTAF YN ADEILAD GOGLEDDOL YR YSGUBOR AC EHANGU'R UNED LLAWR GWAELOD I'R BAE CYFAGOS, GAN GYNNWYS CAEL GWARED AR RISIAU C21. NEWID Y WAL DERFYN AR GORNEL OGLEDD ORLLEWINOL YR YSGUBOR MEWN RWBEL A ADFERWYD MEWN MORTER CALCH I GYD-FYND Â'R WAL BRESENNOL, A PHEINTIO’R PÂR O DDRYSAU FFRENGIG NEWYDD GYDA PHAENT GWYRDD HAD LLIN YR YSTÂD. FFURFIO AGORIAD FFENESTR YN Y DRWS PRESENNOL AR Y DRYCHIAD DEHEUOL YN NEUADD NERCWYS, NERCWYS – GWRTHODWYD (053466).**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon.

**APÊL GAN MR R. FURSE YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG AR GYFER UN UNED BRESWYL AR Y LLAWR CYNTAF YN ADEILAD GOGLEDDOL YR YSGUBOR AC EHANGU'R UNED LLAWR GWAELOD I'R BAE CYFAGOS, GAN GYNNWYS CAEL GWARED AR RIS C21. NEWID Y WAL DERFYN AR GORNEL OGLEDD ORLLEWINOL YR YSGUBOR MEWN RWBEL A ADFERWYD MEWN MORTER CALCH I GYD-FYND Â'R WAL BRESENNOL, A PHEINTIO’R PÂR O DDRYSAU FFRENGIG NEWYDD GYDA PHAENT GWYRDD HAD LLIN YR YSTÂD, FFURFIO AGORIAD FFENESTR YN Y**

**DRWS PRESENNOL AR Y DRYCHIAD DEHEUOL YN NEUADD NERCWYS, NERCWYS – GWRTHODWYD (053467).**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon.

**APÊL GAN MR R. FURSE YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER Y GWAITH O ADEILADU ADEILAD I GARTREFU GOSODIAD BIOMAS AC I STORIO OFFER A DEUNYDDIAU FFERM YN NEUADD NERCWYS, NERCWYS – GWRTHODWYD (053469).**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon.

**APÊL GAN MR R. FURSE YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG AR GYFER Y GWAITH O ADEILADU ADEILAD I GARTREFU GOSODIAD BIOMAS AC I STORIO OFFER A DEUNYDDIAU FFERM YN NEUADD NERCWYS, NERCWYS – GWRTHODWYD (053470).**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon.

**APÊL GAN MR R. FURSE YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER TRAWSNEWID AC ADEILADU ESTYNIAD I HEN GYTIAU MOCH, ER MWYN STORIO CERBYDAU AC OFFER GARDDIO ER BUDD YR ANNEDD BRESENNOL YN NEUADD NERCWYS, NERCWYS – GWRTHODWYD (050788).**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon.

**APÊL GAN MR R. FURSE YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG AR GYFER TRAWSNEWID AC ADEILADU ESTYNIAD I HEN GYTIAU MOCH, ER MWYN STORIO CERBYDAU AC OFFER GARDDIO ER BUDD YR ANNEDD BRESENNOL YN NEUADD NERCWYS, NERCWYS – GWRTHODWYD (050789).**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon.

**APÊL GAN MR A MRS CLARE YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO AMLINELLOL I GODI ANNEDD AR DIR YN WESTACRES, FFORDD BERTHEN, LICSWM – GWRTHODWYD (055951)**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon.

**APÊL GAN ELAN HOMES LTD YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD RHOI CANIATÂD CYNLLUNIO I GODI 24 ANNEDD A GAREJYS, LLEOEDD PARCIO, GERDDI A MANNAU AGORED CYSYLLTIEDIG Â DYMCHWEL YR ORSAF WASANAETH BRESENNOL A THAI ALLAN YNG NGORSAF WASANAETH ARGOED, PRIFFORDD, NEW BRIGHTON - WEDI'I GANIATÁU (055310).**

Nododd y Cynghorydd Mike Peers fod y Pwyllgor wedi gwrthod y cais hwn yn unfrydol a chyfeiriodd at y cyngor a roddwyd yn flaenorol yn 2010 gan y Swyddog Cynllunio fod angen tai fforddiadwy ar y safle, ond yn hytrach na'u rhoi ar y safle dylid defnyddio'r arian ar gyfer darpariaeth tai fforddiadwy oddi ar y safle. Fodd bynnag, rodd yr Arolygydd wedi nodi nad oedd hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd felly nid oedd angen ymrwymiad o'r datblygiad apêl.

Gwnaeth sylwadau hefyd am adroddiad yr Arolygydd, ond cwestiynodd y sylwadau yn yr adroddiad a oedd yn nodi na ddarparwyd unrhyw dystiolaeth a dywedodd fod tystiolaeth wedi ei darparu ar ran y Pwyllgor Cynllunio. Cwestiynodd sylwadau'r Arolygydd ynghylch cymeriad y datblygiad a darpariaeth tai fforddiadwy.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i ganiatáu'r apêl hon.

**15. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 13 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.10pm)

.................................................

**Cadeirydd**

**PWYLLGOR RHEOLI CYNLLUNIO AR 28 MEHEFIN 2017**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 052119 | Cyngor Cymuned Mostyn | Cais llawn – Bwriad i ddatblygu ysbyty a chanolfan ail-alluogi ar gyfer pobl dan anfantais oherwydd anhwylder ar y sbectrwm awtistig a/neu anableddau dysgu, gan gynnwys blociau preswyl arfaethedig ac adeiladu byw'n annibynnol (a gymeradwywyd eisoes dan ganiatâd cynllunio 045395) yng Ngwaith Alyn (gynt) a Chwrs Golff Kinsale (rhan ohono), Mostyn. | Tynnodd y Swyddog Cynllunio sylw at y sylwadau hwyr a gylchredwyd yn flaenorol.<br><br>Siaradodd Miss Andrea Dishman, Ymgeisydd o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd D. Rooney, Cyngor Cymuned Mostyn, yn erbyn y cais. | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn erbyn yr argymhelliad y swyddog. |
| 056601 | Cyngor Cymuned Coed-llai | Cais llawn - Codi 7 Annedd yn Ivy Cottage, Queen Street, Coed-llai | Tynnodd y Swyddog Cynllunio sylw at y sylwadau hwyr a gylchredwyd yn flaenorol.<br><br>Siaradodd Miss. J. Rogers, llefarydd trydydd parti, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd amodol, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn gwneud cytundeb Adran 106, gan ddarparu ymgymeriad unochrog neu wneud rhagdaliad sy’n darparu ar gyfer offer chwarae. |
| 056806 | Cyngor Cymuned Llanasa | Cais Llawn – Codi Pedwar Annedd yn Top-Yr-Allt, Allt Llinegr, Penyffordd | | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn erbyn argymhelliad y swyddog. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 056521 | Cyngor Cymuned Queensferry | Cais Llawn – Codi 8 annedd yn New Inn, Ffordd yr Orsaf, Sandycroft. | Siaradodd Mrs. S. Stevens, llefarydd trydydd parti, yn erbyn y cais. | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn erbyn yr argymhelliad y swyddog. |
| 056796 | Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton | Cais Llawn – Estyniad Unllawr i gefn Catchpenny Cottage, Bretton Lane, Bretton | Siaradodd Ms. J. Ellis-Jones, asiant ar ran yr ymgeisydd, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |